2025/2026

Adroddiad y Cyfarwyddwr



Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg

Llun trwy garedigrwydd GofalwnCymru – Gweithgareddau Pontio'r Cenedlaethau Dechrau'n Deg yng Nghartrefi Gofal Ty Dewi Sant, Penarth

Cyflwyniad

Fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg, mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26.
Fel bob amser, mae'r flwyddyn wedi cynnwys heriau sylweddol, yn bennaf oherwydd bod newidiadau yn y ddemograffeg yn parhau i gynyddu lefelau galw ym mhob maes mewn cyd-destun cyllid cyfyngedig.
Roedd yr heriau hyn wedi'u rhagweld ac maent yn debygol o barhau, felly mae hyn yn golygu bod angen i ni wneud newidiadau pellach i'n gwasanaethau. Rydym yn datblygu ac yn addasu ein hymatebion i'r amseroedd ansicr hyn sy'n newid yn gyflym.

Rydym yn rhoi cymorth i fwy o bobl nag erioed o'r blaen, yn llawer cyflymach nag erioed o'r blaen ac mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o reolaeth iddynt dros eu trefniadau. Byddai hyn oll wedi bod yn amhosibl ei gyflawni heb ymroddiad a gwytnwch ein staff. Trwy weithio gyda'n partneriaid, ein cymunedau a'n dinasyddion, rydym wedi gallu gwneud y defnydd gorau posibl o'n hymdrechion a helpu'r rhai sydd mewn angen. Mae arnom ddyled i bawb sydd angen ac yn defnyddio ein gwasanaethau i'w gwneud yn ymatebol ac ar gael iddynt mewn ffordd amserol.

Hoffwn ddiolch i'r holl aelodau o staff hynny a'n partneriaid am y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth roi gofal a chymorth o ansawdd uchel i ddinasyddion Bro Morgannwg. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n tynnu sylw at gyflawniadau, heriau a meysydd allweddol ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Ein nod yw sicrhau gofal o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y person sy'n diwallu anghenion ein cymuned.

Mae'r adroddiad yn yr un fformat ag adroddiad y llynedd, yn dilyn canllawiau wedi'u diweddaru gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad hefyd yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau y dywedon ni y bydden ni'n canolbwyntio arnynt dros y 12 mis diwethaf, ac mae'r rhain i'w gweld yn yr adran 'asesu perfformiad'.

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cynnwys tri maes gwasanaeth allweddol:

- **Gwasanaethau i Oedolion** – Rhoi cymorth i oedolion i fyw mor annibynnol â phosibl, gan ganolbwyntio ar eu cryfderau, eu cysylltiadau teuluol a chymunedol tra'n diwallu anghenion cymwys a aseswyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- **Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc** – Hyrwyddo a diogelu lles plant a phobl ifanc, darparu cymorth amserol i deuluoedd, a sicrhau gofal penodol o ansawdd uchel pan fo angen.

- **Rheoli a Diogelu Adnoddau** – Yn goruchwylio arweinyddiaeth, cynllunio ariannol, datblygu'r gweithlu, diogelu, comisiynu, rheoli perfformiad, a chynllunio strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol.

Cyflawniadau Allweddol

- Amseroedd ymateb cyflymach fyth ar gyfer cymorth i unigolion i'w galluogi i fyw gartref.
- Mwy o bobl yn cael eu cefnogi i fyw gartref.
- Datblygu Cwmpawd Teulu y Fro sy'n darparu un lle hawdd i deuluoedd gael gafael ar wybodaeth a chymorth.

Heriau a Meysydd i'w Gwella

- Digon o adnoddau i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio a'r nifer cynyddol o blant sydd angen ein hymyrraeth.
- Mae heriau recriwtio a chadw yn parhau mewn rhai meysydd allweddol.
- Datblygu'r dechnoleg gwybodaeth i sicrhau bod gan staff yr offer gorau ar gyfer eu gwaith.

Edrych tua'r Dyfodol

Bydd angen i'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod ganolbwyntio ar ddau newid allweddol, sef gweithredu'r system cofnodion gofal cymdeithasol newydd ac adleoli i lety gwahanol i'r mwyafrif o'n staff. Bydd y newidiadau sylweddol hyn yn cyfyngu ar faint o gynnydd y gallwn ei wneud mewn meysydd eraill yn ystod 2026/27.

Cyd-destun:
Arweinyddiaeth:
Mae gwasanaethau cymdeithasol ym Mro Morgannwg yn cael eu goruchwylio trwy'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ac yn cael cyfarwyddyd gan yr aelod cabinet arweiniol. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithredu gyda chysylltiad agos â'r pedair cyfarwyddiaeth arall yn y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn wedi'i osod yng nghyd-destun Cynllun Corfforaethol newydd (Y Fro 2030). Datblygwyd Vale 2030 gyda mewnwelediadau a gasglwyd o Asesiad Perfformiad Panel ac felly mae gan yr amcanion a nodir sylfaen dystiolaeth glir. Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Cynllun y Gyfarwyddiaeth i helpu i gyflawni Vale 2030 ac i gefnogi'r gwahanol raglenni trawsnewid yn y gwasanaeth. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd rhai o'r newidiadau mwyaf mewn gofal cymdeithasol yn digwydd yn y Fro. Yn arbennig, bydd cyflawni agenda 'Dileu Elw' Llywodraeth Cymru yn gofyn am waith sylweddol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Ymgymryd â rhaglen o Arweinyddiaeth Dosturiol gyda chymorth Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau ein bod yn rheoli ac yn arwain y gwasanaeth cyfan mewn ffordd gyson a chefnogol.
- Gweithio gyda CLILC i sicrhau ein bod yn achub ar gyfleoedd i ddatblygu ffyrdd arloesol o weithio trwy'r Fframwaith Digidol mewn Gofal Cymdeithasol.

Gweithlu:
Mae ein gweithlu gofal cymdeithasol yn sylfaen i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rydym yn parhau i gyflwyno cynllun hyfforddi cynhwysfawr ac yn elwa o gynllun tyfu eich Gweithwyr Cymdeithasol eich hunain.
Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Gwneud cynnydd tuag at gyflawni argymhellion ADSSC (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) i gael gwared ar hiliaeth (gweler yr adran 'gwybodaeth arall' isod)
- Wedi cael cymeradwyaeth cyllid i ddatblygu gofod swyddfa newydd ar gyfer Gwasanaethau Oedolion

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Gweithredu'r system rheoli achosion gofal cymdeithasol newydd, gan gynnwys mudo data diogel, integreiddio ymarferoldeb craidd, a modiwl cyllid, wrth osod y sylfeini ar gyfer parodrwydd y gweithlu ac adrodd am berfformiad i sicrhau mabwysiadu didrafferth a gwelliant hirdymor
- Cefnogi staff i symud swyddfeydd a datblygu gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd ar gyfer preswylwyr

Adnoddau Ariannol
Mae ein rheolaeth ariannol yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu'n effeithlon er mwyn darparu gwasanaethau. Wedi dweud hynny, mae'r Gyfarwyddiaeth wedi gorwario'n sylweddol eleni. Roedd y gorwariant hwn oddeutu £2M mewn Gwasanaethau Plant a

Phobl Ifanc a briodolwyd yn bennaf i nifer cynyddol o blant yr oedd angen lefelau uchel o gymorth arnynt megis llety preswyl. Mae'r gorwariant yn cael ei briodoli'n bennaf i'r angen i ymyrryd, amddiffyn a chefnogi mwy o blant. Ar gyfer Gwasanaethau Oedolion roedd y gorwariant oddeutu £1M o ganlyniad i ddarparu gofal a chymorth i nifer cynyddol o bobl. Mae'r boblogaeth hŷn gynyddol yn parhau i fod ag angen lefelau uwch o ofal i fyw'n annibynnol. Yn gryno, rydym yn rhoi cymorth i fwy o bobl nag erioed o'r blaen, ac mae hyn yn effeithio ar ein cyllideb.
Ar gyfer 2025/26 roedd cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yn **£106.519 miliwn.**
Yn ogystal, roedd yn rhaid i'r gyfarwyddiaeth sicrhau gwerth **£3.624 miliwn** o arbedion. Rwy'n falch o ddweud bod y rhan fwyaf o'r arbedion hyn wedi'u cyflawni. Rydym yn gweithio'n galed i drawsnewid gwasanaethau a lleihau unrhyw effaith arbedion o'r fath ar ein preswylwyr. Rydym hefyd wedi bod yn ffodus bod y Cyngor wedi blaenoriaethu gwasanaethau cyllido sy'n cefnogi ei breswylwyr mwyaf agored i niwed.
Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom gyflawni'r arbedion hyn trwy nifer o ddulliau trawsnewid gan gynnwys:

- Lleihau'r defnydd o weithwyr cymdeithasol asiantaethau mewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.
- Gostyngiad diogel yn nifer y galwadau gofal cartref dwy law trwy ymyriadau targedig a gwell ymarfer wrth godi a chario a defnyddio offer â llaw.
- Adennill dyled a chynnydd mewn incwm

Yn ystod y dyfodol rhagweladwy, bydd yn ofynnol i'r Cyngor leihau gwariant cyllidebol yn sylweddol gan nad ydym yn gallu cadw i fyny â'r pwysau cost a achosir gan alw cynyddol a chynnydd mewn prisiau. Bydd y Gyfarwyddiaeth yn parhau i gynnal adolygiadau gwasanaeth i adnabod meysydd lle gellir gwireddu effeithlonrwydd gan arwain at ostyngiad mewn gwariant neu gynnydd mewn cynhyrchu incwm fel y bo'n briodol.

Mae'n siomedig nad yw mecanwaith priodol ledled y DU neu yng Nghymru ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol ar waith neu yn yr arfaeth.

Yn 2026/27 rydym yn disgwyl i'n cyllideb fod yn £114M ac y bydd yn ofynnol i ni gyflawni £1.74M o arbedion.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn:



- Cyflawni ein rhaglen uchelgeisiol i arbed £174M sy'n cynnwys y canlynol:
    - Parhau i leihau galwadau dwy law lle mae'n ddiogel gwneud hynny
    - Ymgorffori model ailalluogi yn gyntaf i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o annibyniaeth unigolyn cyn comisiynu pecynnau gofal tymor hwy.
    - Adennill mwy o ddyledion
    - Defnyddio lletyau preswyl i blant yn effeithlon
    - Helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd ac osgoi'r angen am ymyrraeth fwy costus
    - Lleihau'r defnydd o staff asiantaeth


Mae'r gyllideb gofal cymdeithasol yn cael ei dyrannu i wasanaethau fel a ganlyn:


- Gwasanaethau i Oedolion – £77.1 miliwn (£73.1 miliwn y flwyddyn flaenorol)
- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc – £27.6 miliwn (£24.7 miliwn y flwyddyn flaenorol)
- Rheoli Adnoddau a Diogelu – £9.4 miliwn (£8.7 miliwn y flwyddyn flaenorol)

Data Gweithgarwch



Mae'r defnydd o ganrannau yn y gwahanol siartiau data yn yr adroddiad hwn yn dangos y newid o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r ffigur canran yn y gornel dde uchaf yn cynrychioli'r newid cyffredinol o 21/22 i 25/26.

Cysylltiadau newydd	
Oedolion	Plant
	
Asesiadau newydd wedi'u cwblhau	
Oedolion	Plant




The number of new assessments completed for adults during the year.
Adult Services
2021-22 to 2025-26
Percentage Change
6%
21/22 to 22/23
7%
22/23 to 23/24
9%
23/24 to 24/25
-7%
24/25 to 25/26
-2%
778
832
904
842
823
800
600
400
200
0
2021-22
2022-23
2023-24
2024-25
2025-26




The number of new assessments completed for children during the year.
Children & Young People Services
2021-22 to 2025-26
Percentage Change
450%
21/22 to 22/23
270%
22/23 to 23/24
105%
23/24 to 24/25
-39%
24/25 to 25/26
19%
3,500
3,000
2,500
2,000
1,500
1,000
500
0
472
1746
3585
2187
2594
2021-22
2022-23
2023-24
2024-25
2025-26

Asesiadau wedi'u cwblhau lle y gellir diwallu anghenion gyda chynllun gofal a chymorth yn unig

Oedolion	Plant
	

Cynllun gofal a chymorth ar waith ar ddiwedd y flwyddyn.

Oedolion	Plant
	

Pobl sydd â'u hanghenion gofal a chymorth eu hunain a'u cyfrifoldebau fel gofalwr	
Oedolion	Plant
	

Data Gweithgarwch – Y Flwyddyn Bresennol

Cyfeirnod y metrig	Enw'r metrig	2025-26
AD/001a	**Cyfanswm** nifer y cysylltiadau ar gyfer oedolion a dderbyniwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn.	4878
AD/004	Nifer yr asesiadau **newydd** a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn.	823
AD/005a	Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn lle dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.	735
AD/012a	Nifer yr oedolion oedd â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.	2489
AD/012b	Nifer yr oedolion oedd â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a hefyd gynllun cymorth gofalwr, lle roedd gan yr oedolyn eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain a'u cyfrifoldebau fel gofalwr	15
CH/001	Nifer y cysylltiadau yn ymwneud â phlant a dderbyniwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn.	9542
CH/006	Nifer yr asesiadau plant newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.	2594
CH/007a	Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.	293
CH/015a	Nifer y plant oedd â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.	712
CH/015b	Nifer y plant oedd â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a hefyd gynllun cymorth gofalwr, lle roedd gan y plentyn eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain fel gofalwr ifanc	0

Ym mis Tachwedd 2025 fe wnaethom newid y ffordd y mae pobl yn cysylltu â Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc trwy ddatblygu Cwmpawd Teulu y Fro. Mae hyn yn golygu nad yw nifer y cysylltiadau yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

Asesiad Perfformiad
Mae'r adran hon yn darparu hunanasesiad o'n perfformiad yn y pedair safon ansawdd allweddol: Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio, a Llesiant. Mae'r asesiad yn seiliedig ar ddata gweithrediadol, adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, ymgysylltu â staff, a gwerthusiadau allanol.

1. Pobl

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod unigolion yn rhan annatod o'r gwaith o gynllunio eu gofal a'u cymorth. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi defnyddio ein fframwaith sicrhau ansawdd i wella gwerthuso perfformiad gwasanaeth. Mae'r fframwaith hwn yn hyrwyddo ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan sicrhau bod ein hymyriadau yn effeithiol, yn atebol, ac yn gwella'n barhaus i ddiwallu anghenion pobl.

Sicrhau arfer o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth
Mae ein fframwaith sicrhau ansawdd wedi'i ymgorffori i yrru cysondeb yn ymarferol, yn ogystal â pholisi goruchwylio sy'n sicrhau safonau uchel ar draws timau. Rydym yn monitro goruchwyliaeth i sicrhau ei fod yn cael ei darparu ar draws y gyfarwyddiaeth gyfan. Mae gweithredu system cofnodion gofal cymdeithasol newydd hefyd wedi dechrau, gan sicrhau gwelliannau mewn rheoli achosion digidol yn y dyfodol.

Y Gymraeg: Y Cynnig Rhagweithiol a Mwy na Geiriau
Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Sefydlu ffrwd waith Mwy Na Geiriau, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol ar draws y Cyngor sydd â chylch gwaith a'r gallu i yrru Cynnig Rhagweithiol Cymru ymlaen, er mwyn bodloni cynllun 5 mlynedd Mwy Na Geiriau.
- Sefydlu gweithgor newydd "Shwmae Bawb", sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd ddifyr a hygyrch. Mae'r grŵp wedi cynhyrchu cyfres o e-fwletinau sydd wedi'u dylunio i dynnu sylw at safonau'r Gymraeg, hyrwyddo cyfleoedd dysgu a dathlu diwylliant Cymru mewn fformat cynhwysol a llawn hwyl.
- Rhannu gwybodaeth a chyfarwyddiadau â staff ar sut i gofnodi dewis iaith yn y cam asesu a phwysigrwydd cynnig sgyrsiau a chyfarfodydd yn Gymraeg. Mae hyn wedi cefnogi dull mwy rhagweithiol o ddarparu rhyngweithiadau cyfrwng Cymraeg a'r cynnig rhagweithiol Cymru.
- Lanlwytho cyrsiau Cymraeg ar gyfeiriadur hyfforddiant ar-lein y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynyddu cyrhaeddiad.
- Cynnal cwrs "Cyflwyniad i'r Gymraeg" yn llwyddiannus, a fynychwyd gan 45 aelod o staff ar draws y Cyngor. Mae'r brwdfrydedd cryf wedi arwain yn uniongyrchol at dri chwrs *Mynediad* lefel mynediad newydd, a ddechreuodd ym mis Ionawr.
- Annog staff i gwblhau asesiad sgiliau Cymraeg. Mae'r Swyddog Cydraddoldeb bellach yn llunio rhestr o staff sy'n siarad Cymraeg sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Mae'r adnodd hwn yn sicrhau bod cydweithwyr yn gallu nodi cymorth mewnol yn gyflym wrth ymateb i unigolion sy'n gofyn am gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dosbarthu laniardau Cymraeg a chardiau cwrteisi gydag ymadroddion Cymraeg syml i ddysgwyr rheng flaen, gan helpu i hyrwyddo amgylchedd croesawgar a dwyieithog.

Dros y flwyddyn nesaf rydym yn bwriadu:

- Parhau i hyrwyddo Safonau'r Gymraeg gan ddefnyddio offer creadigol a diddorol. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu set o fideos byr ac addysgiadol y mae rheolwyr tîm yn gallu eu rhannu â'u staff yn hawdd i atgyfnerthu negeseuon allweddol ac ymarfer da.
- Hyrwyddo'r Cwrs Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg a chyfleoedd dysgu eraill trwy'r e-fwletinau *Shwmae Bawb*, gan dynnu sylw at adborth cadarnhaol gan ddysgwyr presennol i annog defnydd ehangach.
- Annog rheolwyr i drafod cyrsiau Cymraeg yn ystod arfarniadau staff blynyddol.
- Trefnu i diwtor *Dysgu Cymraeg* gyflwyno mewn cyfarfodydd rheolwyr i ddangos yr ystod lawn o gyrsiau sydd ar gael.
- Byddwn yn parhau i ymgorffori'r Gymraeg mewn polisïau ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan sicrhau bod ystyriaethau iaith Gymraeg yn cael eu hadlewyrchu'n gyson mewn dogfennau a phrosesau.
- Codi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR) ar gyfer Ieithoedd a'r Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg ymhlith staff sy'n ymwneud â recriwtio. Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod pob rôl a swydd wag ddilynol yn cael eu cefnogi gan asesiad sgiliau Cymraeg priodol

Sut rydym yn gwybod

- **Profiad o Ofal Cartref:**

Eich Dewis yw dull hyblyg Cyngor Bro Morgannwg o ddarparu Gofal a Chymorth yn y Cartref sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae'n rhoi pobl wrth wraidd eu gofal trwy gynnig mwy o ddewis a rheolaeth dros sut mae cymorth yn cael ei gynllunio a'i ddefnyddio. Yn hytrach nag amserlenni sefydlog neu ymweliadau dan arweiniad tasgau, mae unigolion yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal i ddefnyddio eu horiau a ddyrannwyd mewn ffyrdd sy'n bwysig iddyn nhw, gan gefnogi annibyniaeth, lles a bywyd pob dydd.

Wedi'i seilio ar **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, mae Eich Dewis yn hyrwyddo gofal sydd wedi'i gynllunio *gyda* phobl yn hytrach nag *ar eu cyfer*. Bwriedir i drefniadau cymorth ganolbwyntio ar yr unigolyn a bod yn addasadwy ac yn ymatebol, gan alluogi gofal i newid wrth i anghenion neu amgylchiadau newid.

Fel rhan o sicrhau ansawdd parhaus a monitro perfformiad, ymgynghorodd y Cyngor ag oedolion sy'n derbyn gofal cartref i ddeall eu profiadau bywyd. Roedd yr arolwg yn cynnwys pobl sy'n cael eu cefnogi gan ddarparwyr Eich Dewis a darparwyr nad ydynt yn rhai Eich Dewis ac fe'i rhannwyd trwy ddarparwyr a gomisiynwyd trwy fformatau papur ac ar-lein, gydag ymatebion wedi'u cwblhau yn cael eu dychwelyd i'r Cyngor i'w coladu a'u dadansoddi.

Mae adborth cyffredinol o'r arolwg yn dangos **boddhad cryf ar ofal cartref**, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd staff rheng flaen a'r berthynas a ddatblygwyd rhwng gofalwyr ac unigolion sy'n derbyn cymorth.

Ar draws trefniadau gofal **Eich Dewis** a'r rhai nad ydynt yn ymwneud ag **Eich Dewis**, roedd ymatebwyr yn tynnu sylw'n gyson at y canlynol:

- Caredigrwydd, proffesiynoldeb a thosturi gofalwyr
- Cael eu trin â pharch ac urddas
- Pwysigrwydd gofal wrth gefnogi annibyniaeth, lles ac aros gartref

Roedd y themâu cadarnhaol hyn yn gyson ar draws darparwyr a modelau gofal ac fe'u hadlewyrchwyd yn yr adborth ansoddol a dderbyniwyd.

Dywedodd ymatebwyr wrthym:

"Mae'r gofalwyr yn trin fy mam gyda charedigrwydd a pharch a bob amser yn cynnal ei hurddas."

"Mae'r gofalwyr fel aelodau'r teulu i ni. Maen nhw'n fy helpu i aros yn fy nghartref fy hun."

"Heb y gofal a'r cymorth rwy'n eu derbyn, byddwn yn cael trafferth ymdopi ar fy mhen fy hun."

Mae'r ymatebion hyn yn nodi, ni waeth beth fo'r model cyflawni, fod **gofal rheng flaen yn gryfder clir** ac yn gyfrannwr allweddol at brofiad bywyd cadarnhaol.

- **Ymgynghoriad ac Ymgysylltu Treigl Lleoliadau:**



Mae pobl wrth wraidd gwaith y Tîm Lleoliadau a'r Gwasanaeth Maethu, sy'n cefnogi gofalwyr maeth, gofalwyr sy'n berthnasau, gwarcheidwaid arbennig a phlant a phobl ifanc i brofi gofal diogel, sefydlog a meithringar. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi cadw ffocws cryf ar gipio profiad bywyd a chryfhau sut mae adborth yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio. Mae'r Timau Sicrhau Ansawdd a Lleoliadau wedi gweithio'n agos i ail-lunio offer ymgynghori, gwella ymgysylltu digidol a datblygu llwybrau cliriach ar gyfer cyfranogiad, gan sicrhau bod lleisiau gofalwyr a phlant yn cael eu hadlewyrchu'n fwy cyson ar draws y daith faethu.



Mae canfyddiadau ymgynghori trwy gydol y flwyddyn yn rhoi sicrwydd cadarnhaol am agweddau allweddol ar y gwasanaeth, yn enwedig ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas, paratoi ac ymdeimlad plant o ddiogelwch a pherthyn. Roedd lefelau ymgysylltu yn gryf mewn sawl maes, gan gynnwys hyfforddiant Sgiliau i Faethu (cyfraddau ymateb 100%) a gweithgarwch adolygu, gan alluogi mewnwelediad ystyrlon i brofiad bywyd. Yn aml, mae gofalwyr maeth yn disgrifio eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi a'u bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau adolygiad, tra bod plant a phobl ifanc yn adrodd yn gyson eu bod yn teimlo'n ddiogel, bod pobl yn gofalu amdanynt a'u bod yn gallu siarad ag oedolion maen nhw'n ymddiried ynddynt. Fe wnaeth un person ifanc ddisgrifio eu lleoliad fel *"cartref go iawn"*, tra nododd un arall fod gofalwyr yn *"rhoi ail gyfleoedd, beth bynnag y sefyllfa"*.

Ar draws y ddau adroddiad, mae themâu cadarnhaol clir yn dod i'r amlwg sy'n dangos effaith ymarfer sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae gweithio seiliedig ar berthynas yn parhau i fod yn gryfder cyson, yn enwedig lle mae parhad cymorth gweithwyr cymdeithasol yn bodoli. Mae paratoi a dysgu'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr, gyda

gofalwyr yn adrodd bod ganddynt fwy o hyder a pharodrwydd ar ôl hyfforddiant. Fe wnaeth pob cyfranogwr Sgiliau i Faethu sgorio darpariaeth hyfforddwyr yn *Da iawn*, a thynnodd gofalwyr sylw at fuddion cysylltu theori ag ymarfer maethu bywyd go iawn. Mae lleisiau plant yn atgyfnerthu'r cryfderau hyn, gan ddangos sefydlogrwydd, diogelwch emosiynol ac ymdeimlad cryf o berthyn mewn lleoliadau. Er bod ymgynghoriad hefyd yn nodi pwysau system a heriau cyfathrebu, roedd y rhain yn aml yn cael eu fframio gan ofalwyr o fewn dealltwriaeth o ofynion gwasanaeth ehangach, gan atgyfnerthu perthynas adeiladol ac ymgysylltiedig rhwng dinasyddion a'r gwasanaeth. Ar y cyfan, mae'r canfyddiadau yn tanlinellu gwasanaeth sy'n gwerthfawrogi adborth ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod profiadau a lleisiau ei bobl yn parhau i ffurfio gwelliant a chanlyniadau.

Data Pobl:

Pobl sydd â chynllun gofal a chymorth lle mae anghenion yn cael eu diwallu trwy Daliad Uniongyrchol	
Oedolion	Plant
	

Pobl lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol	**"Cynigion Rhagweithiol" o eiriolaeth i blant 5 oed a hŷn**
Oedolion	Plant
	
Mae newid amlwg iawn mewn adrodd rhwng 22/23 a 24/25. Mae hyn oherwydd y newid penodol o 'Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol yn hytrach nag unrhyw fath arall o eiriolaeth.	Mae'r cynnydd sydyn yn nifer y 'Cynigion Rhagweithiol' o eiriolaeth i blant 5 oed a hŷn yn adlewyrchu newid yn y ffordd y mae'r ffigur hwn yn cael ei gyfrifo, ac erbyn hyn mae'n cynrychioli cyfanswm nifer y cynigion a wnaed drwy gydol y flwyddyn.

Blwyddyn Bresennol:

Cyfeirnod y metrig	Enw'r metrig	2025-26
AD/013	Cyfanswm yr oedolion â chynllun gofal a chymorth lle mae anghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth.	256
AD/032	Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol.	56
CH/016	Cyfanswm nifer y plant â chynllun gofal a chymorth lle mae anghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth.	64
CH/056	Cyfanswm nifer y "Cynigion Rhagweithiol" o eiriolaeth i blant, pump oed a hŷn ar ddechrau'r flwyddyn gasglu, yn ystod y flwyddyn.	451

Pa gynnydd wnaethom ni ar flaenoriaethau y llynedd?

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Bod yn gweithredu micro-fentrau lleol (busnesau bach sy'n cynnig cymorth i'r gymuned) i alluogi preswylwyr i gael dewis ehangach o wasanaethau arloesol a arweinir gan y gymuned. Er ei fod yn dal yn ei gamau cynnar, mae'r cam recriwtio wedi dechrau.
- Gwneud cynnydd da wrth ddatblygu llety nid-er-elw lleol i ddiwallu anghenion ein plant gyda 3 chyfleuster preswyl yn cael eu datblygu.
- Gwneud cynnydd o ran helpu plant i aros gartref lle bynnag y bo'n bosibl ac mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi sefydlogi.
- Parhau i ddarparu cymorth i ofalwyr trwy Hyb Gofalwyr y Fro ac wedi datblygu bwletin misol i ofalwyr.
- Cynnal trafodaethau â rhai o'r plant rydym yn gofalu amdanynt i lunio grŵp cynghori'r Panel Rhianta Corfforaethol i ddarparu mecanwaith ffurfiol i bobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau a gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Ehangu neu ddatblygu cynigion gofal amgen fel Rhannu Bywydau, Teleofal, Micro-ddarparwyr.
- Parhau i ddatblygu llety lleol, nid-er-elw i ddiwallu anghenion ein plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys ystod amrywiol a hyblyg o opsiynau llety maeth, preswyl a chymorth ar gyfer y plant hynny sydd angen gofal.

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u dewis gan ein bod yn cydnabod bod preswylwyr eisiau ystod ehangach o wasanaethau ac i gyflawni agenda Dileu Elw Llywodraeth Cymru.

2. Atal

Mae atal yn parhau i fod ar flaen y gad yn ein dull o ofal cymdeithasol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo modelau gofal cymunedol, gan sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth cywir ar yr adeg iawn.





Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth:





- Ddechrau model Ailalluogi'n Gyntaf lle mae oedolion sydd angen gofal a chymorth yn cymryd rhan mewn cyfnod o ailalluogi a ddylai wneud y mwyaf o lefelau annibyniaeth i fwy o bobl.
- Ehangu Gwasanaethau Dechrau'n Deg i gefnogi mwy o blant ar draws ardal ehangach.
- Symleiddio'r cyswllt cyntaf ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc sy'n golygu bod teuluoedd yn cael mynediad i ystod ehangach o wybodaeth a chymorth.
- Datblygu cymorth cyn genedigaeth
- Cyflwyno Canllawiau Trothwy mewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (GPPhI), "Y Cymorth Cywir ar yr Adeg Gywir"




Sut rydym yn gwybod

- Parhawyd i gydymffurfio â'n targedau prydlondeb wrth ymateb i ymholiadau diogelu oedolion.
- Mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gymorth ataliol ac ymyrraeth gynnar i blant a theuluoedd
- Y cymorth cywir yn cael ei ddarparu ar yr adeg gywir, gan leihau ymyriadau GPPhI ar adeg argyfwng
- Dealltwriaeth ar draws ein partneriaethau am gymorth y gellir ei gyrchu i deuluoedd a'r lefel briodol o ymyrraeth

Data Atal:

Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan Wasanaethau Cymdeithasol statudol ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth.	
Oedolion	Plant
	
Roedd modd bodloni anghenion drwy ddull arall	
Oedolion	Plant
	

Oedolion yn derbyn cymorth ailalluogi	**Nifer yr oriau o ailalluogi a ddarparwyd mewn un diwrnod**
	
Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi i oedolion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn	**Nifer y pecynnau o ailalluogi a leihaodd yr angen am gymorth**
	

Nifer y pecynnau o ailalluogi a gynhaliodd yr angen am gymorth	Nifer y pecynnau o ailalluogi a liniarodd yr angen am gymorth
	
Nifer y pecynnau o ailalluogi na wnaeth leihau, cynnal na lliniaru'r angen am gymorth	
	

Blwyddyn Bresennol

Cyfeirnod y metrig	Enw'r metrig	2025-26
CH/002	Nifer y cysylltiadau newydd ar gyfer plant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth.	2520
CH/007b	Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle roedd angen yn gallu cael eu diwallu trwy unrhyw ddull arall.	2135
AD/002	Nifer y cysylltiadau newydd i oedolion a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth.	2043
AD/005b	Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn lle roedd modd diwallu anghenion trwy unrhyw ddull arall.	58
AD/010	Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.	436
A9	Nifer yr oedolion yn derbyn cymorth ailalluogi ar 31 Mawrth	59
A9.1	Nifer yr oriau o ailalluogi sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd mewn un diwrnod fel ar 31 Mawrth	73
AD/011a	Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd: a. lleihau'r angen am gymorth	68
AD/011b	Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd: b. yn cynnal yr angen am gymorth	91
AD/011c	Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd: c. lliniaru'r angen am gymorth	257
AD/011d	Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a oedd: d. Nad ydynt wedi lleihau, cynnal na lliniaru'r angen am gymorth	20

Pa gynnydd wnaethom ni ar flaenoriaethau y llynedd?

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Ehangu cynnig gofal plant Dechrau'n Deg gyda 475 o godau post wedi'u hychwanegu eleni ac mae gennym bellach dros 50 o ddarparwyr gofal plant.
- Rydym wedi datblygu llwybr cyn geni gyda gweithwyr cyn geni penodol fel rhan o'n Canolfan Ymyriadau. Mae'r cyfuniad o rolau arbenigol a phrosesau strwythuredig yn helpu i nodi a mynd i'r afael â risgiau yn gynnar, gan gefnogi canlyniadau gwell i blant a theuluoedd.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Ehangu Gwasanaethau Ailalluogi i gefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl.
- Ymgorffori dull effeithiol o ddarparu cymorth ac atal cynnar, gan gynnig atebion effeithiol ac amserol i blant a theuluoedd sydd angen cymorth, ac atal angen rhag gwaethygu.

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u dewis i ehangu ein gwasanaethau sy'n cefnogi annibyniaeth a mynediad cynnar i gymorth gyda'r bwriad o leihau'r angen am wasanaethau mwy costus yn y tymor hwy.

3. Partneriaeth ac Integreiddio

Cydweithredu er mwyn gwireddu canlyniadau integredig, o ansawdd uchel a chynaliadwy

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gref i sicrhau bod pobl yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel, cynaliadwy a chwbl integredig. Mae gan Bro Morgannwg drefniadau integredig ar waith ar draws y mwyafrif o wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol. Mae'r rhan fwyaf o dimau oedolion wedi'u hintegreiddio neu o leiaf wedi'u cydleoli ac mae gan reolwyr gyfrifoldeb am staff iechyd a staff gofal cymdeithasol. Mae hyn yn arwain at drefniadau iechyd a gofal mwy di-dor a staff brwdfrydig sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i roi cymorth i'n preswylwyr yn y ffordd orau a allant.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymgysylltu â Rhaglen Newid Sefydliadol a ddatblygodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar ei ben ei hun. Fe wnaethom atgyfnerthu'r angen i barhau i ddarparu gwasanaethau trwy ein model darparu gwasanaethau integredig. Roedd hyn yn heriol er bod y bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'r pryderon mwyaf difrifol y gwnaethom dynnu sylw atynt. Ar y cyfan, mae'r canlyniad wedi arwain at oruchwyliaeth lai integredig a lleol o wasanaethau iechyd yn y Fro ac mae hyn yn siomi.

Rydym wedi mynd ati gyda phartneriaid i hyrwyddo modelau gofal cymunedol, gan sicrhau bod unigolion yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt yn y lleoliad cywir. Mae hyn yn cyd-fynd â Safon Bregusrwydd Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod arosiadau diangen yn yr ysbyty yn cael eu lleihau, a bod pobl yn derbyn gofal amserol, sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r data Llwybrau Gofal Gohiriedig Bro Morgannwg yn dangos ein bod yn perfformio'n uchel wrth gynorthwyo i ryddhau cleifion yn gyflym ac effeithiol o'r ysbyty.

Rydym yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol a'n cydweithrediad trwy sicrhau presenoldeb cyson ac ymgysylltiedig o fewn fforymau amlasiantaethol megis Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA), Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Llwyddiant allweddol oedd ein gwaith ar y cyd i gyflwyno system newydd ar gyfer SWGCC, gan sicrhau bod gofal yn y dyfodol yn cael ei gydlynu'n fwy effeithlon ac yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau integredig. Rydym yn gwneud hyn gyda Chynghorau Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr. Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael cymorth CLILC ac ADSSC yn y maes hwn hefyd.

Rydym yn ffodus i fod yn rhan o ddatblygiadau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mewn perthynas â mynediad a rennir i grynodeb o gofnodion iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol sy'n galluogi rhannu gwybodaeth i ymarferwyr. Mae hyn yn digwydd wrth i ni geisio gweithredu system gofnodion newydd ac felly mae'r cynnydd yn gyfyngedig oherwydd capasiti.

Sut rydym yn gwybod

- **Ymgynghoriad Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (GACF):**
- Tîm iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector integredig wedi'i leoli yn Ysbyty'r Barri yw Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (GACF) sy'n gweithio ar y cyd â gwasanaethau eraill ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.
- Mae'r tîm yn gweithio gydag unigolion yn eu cartrefi eu hunain i sicrhau'r annibyniaeth swyddogaethol orau posibl o ran gweithgareddau bywyd bob dydd, ac yn y ffordd hon lleihau'r angen am fynd i'r ysbyty a gwasanaethau gofal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol am dymor hwy. Mae'n cynnig ymyraethau therapiwtig a chymorth ail-alluogi i bobl ar ôl iddynt gael eu derbyn yn yr ysbyty, fel y gallant ddychwelyd adref mor sydyn â phosibl. Mae'n anelu at ddarparu ymyrraeth a chymorth therapiwtig ardderchog sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae GACF yn gweithio mewn partneriaeth â'r unigolyn tuag at gyflawni nodau sydd wedi'u nodi ar y cyd.
- Mae ein tîm yn cynnwys Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol, Ffisiotherapyddion, Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Dietegwyr, Nyrsys, staff Cydlynu Gofal a Gweithwyr Cymorth Ailalluogi (Gofalwyr Cartref). Mae tua 45 o Weithwyr Cymorth Ailalluogi'n gweithio gyda phobl mewn ffordd alluogi i roi cymorth i'r unigolyn i sicrhau hyder ac annibyniaeth yn dilyn cyfnod o salwch. Mae Gweithwyr Cymdeithasol CACF yn gweithio gydag unigolion i sefydlu anghenion cymorth parhaus, gan gysylltu â thimau rheoli gofal o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i sefydlu pecynnau cymorth parhaus os oes angen.
- Gall unigolion dderbyn ymyriad therapiwtig a chymorth ailalluogi am hyd at 6 wythnos. Mae rhaglen therapiwtig / cynllun darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cleient yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda'r unigolyn a'i adolygu trwy gydol yr ymyrraeth.
- Mae GACF yn gweithredu 7 diwrnod yr wythnos 365/6 diwrnod y flwyddyn.

Cefnogi adferiad, annibyniaeth a hyder gartref

Fe wnaethom ymgysylltu â 130 o ddinasyddion trwy gydol y flwyddyn, ac mae'r adborth yn dangos yn gyson bod GACF yn chwarae rôl ataliol gref wrth helpu pobl i wella ar ôl salwch neu gael eu rhyddhau o'r ysbyty ac i gynnal annibyniaeth gartref. Nododd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr welliannau mewn annibyniaeth, hyder, symudedd a gallu i reoli tasgau dyddiol, gan ddisgrifio'n aml sut roedd cymorth yn lleihau'r risg o ddirywio neu ailddderbyn i'r ysbyty. Tynnodd llawer o bobl sylw at werth offer, addasiadau a mewnbwn therapi amserol wrth eu galluogi i aros yn ddiogel gartref yn hytrach na gofyn am ofal tymor hwy. Dywedodd un dinesydd : *"Fe wnaethon nhw fy ngalluogi a'm hannog i ddychwelyd i annibyniaeth... Roedd y cymhorthion a ddarparwyd yn fy ngalluogi i ddychwelyd adref ac yn cefnogi fy symudedd,"* a nododd un arall, *"Roedd yr offer wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'm hyder, fy niogelwch a'm hwyliau."*

Teimlo'n ddiogel a'ch bod yn cael eich cefnogi a'ch sicrhau

Daeth teimlo'n ddiogel gartref i'r amlwg fel un o'r themâu cryfaf a mwyaf cyson, gan danlinellu effaith ataliol y gwasanaeth. Yn aml, roedd dinasyddion yn disgrifio'r sicrwydd a gafwyd o gyswllt rheolaidd, cyngor proffesiynol a gwybod bod cymorth ar gael os oedd angen. Cyfeiriwyd at gymorth emosiynol dro ar ôl tro, yn enwedig gan bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain neu'n profi gorbryder yn dilyn salwch neu anaf. Mae sylwadau fel *"Fe wnaethon nhw i deimlo'n ddiogel, fy mod yn cael fy nghefnogi a bod pobl yn gofalu*

amdana i" a *"Mae gwybod eu bod nhw wrth law wedi fy helpu i ymdopi ac adennill hyder"* yn adlewyrchu pwysigrwydd cymorth perthynol wrth atal ynysu, colli hyder ac anghenion rhag gwaethygu lle gellir osgoi hynny.

Profiad cadarnhaol o staff a gweithio amlddisgyblaethol, gyda dysgu wedi'i nodi
Roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol am garedigrwydd, proffesiynoldeb ac anogaeth staff, gyda llawer o bobl yn gwerthfawrogi cael eu cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn hytrach na thasgau'n cael eu gwneud iddynt. Roedd y dull ailalluogi hwn yn seiliedig ar gryfderau yn cael ei ystyried yn ganolog i adferiad: *"Roedden nhw bob amser yn fy annog i wneud pethau drosof fy hun,"* ac *"Fe wnaethon nhw wrando, esbonio pethau'n glir ac yn fy helpu i asesu fy nghynydd."* Yn gyffredinol, mae'r adborth yn rhoi sicrwydd cryf bod GACF yn cyflawni canlyniadau ataliol, wrth dynnu sylw at ble y bydd sicrhau ansawdd parhaus a gwella gwasanaethau yn cryfhau'r effaith ymhellach.





- **Ymgynghoriad Tîm Alcohol a Chyffuriau'r Fro (TACF):**




Mae **Tîm Alcohol a Chyffuriau'r Fro (TACF)** yn cefnogi oedolion (18+) ym Mro Morgannwg y mae camddefnyddio sylweddau'n effeithio arnynt. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo annibyniaeth a lles trwy gymorth wedi'i deilwra sy'n seiliedig ar gryfderau, gan weithio ar y cyd ag unigolion i ddatblygu cynlluniau wedi'u teilwra i'w hanghenion a'u canlyniadau a ddymunir. Nid yw TACF yn seiliedig ar ymatal ac mae'n cynnig ystod o ymyriadau ataliol gan gynnwys lleihau niwed un-i-un, gofal cartref arbenigol, asesiadau adsefydlu preswyl a mynediad at Weithiwr Cymorth pwrpasol.

Mae ymgysylltu ag 14 o 32 unigolyn sy'n derbyn cymorth rhwng mis Mai a mis Mehefin 2025 yn tynnu sylw at y rôl arwyddocaol y mae TACF yn ei chwarae mewn ymyrraeth gynnar, sefydlogi ac adferiad. Nododd 13 o'r 14 cyfranogwr fod staff wedi esbonio'n glir y cymorth sydd ar gael ar adeg ymgysylltu ac wedi sgorio'r effaith ar eu lles yn Dda neu'n Rhagorol, gan ddangos canlyniadau ataliol cryf. Roedd llawer o unigolion yn cysylltu cynnydd â lleihau defnydd o sylweddau, mwy o sefydlogrwydd a theimlo'n fwy diogel, gyda sawl un yn nodio bod y gwasanaeth yn *"achub bywydau"*.

Mae ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gryfder clir. Mae'r rhan fwyaf o unigolion yn cael mynediad i gymorth trwy Weithiwr Cymdeithasol neu Weithiwr Cymorth gyda lefelau cyswllt sy'n briodol yn gyffredinol i'w angen. Nododd 11 eu bod wedi cyflawni eu nodau, ac fe wnaeth 13 sgorio TACF fel bod yn Ddefnyddiol neu'n Ddefnyddiol Iawn wrth gefnogi mynediad i lwybrau adsefydlu ac arbenigol. Roedd boddhad cyffredinol yn uchel, gyda 13 yn nodi Bodlon Iawn neu Eithaf Bodlon ac yn teimlo'n eu bod yn ymwneud yn llawn â Chynlluniau Gofal a Chymorth hyblyg, wedi'u teilwra ac wedi'u cydgynhyrchu. Er bod adborth hefyd yn nodi meysydd i'w datblygu o amgylch parhad a chyswllt rhagweithiol, mae'r canfyddiadau yn rhoi sicrwydd cryf bod TACF yn darparu cymorth ataliol effeithiol ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar wydnwch tymor hir.

Data Partneriaeth ac Integreiddio:

Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol i blant a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn gasglu.	Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a symudodd ymlaen i ymholiadau Adran 47.
	
Ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a symudodd ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.	Plant a ychwanegwyd at y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn a gofrestrwyd o'r blaen ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol
	

Nifer yr adroddiadau am oedolyn yr amheuwyd eu bod mewn perygl a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.	Nifer yr adroddiadau am oedolyn yr amheuir eu bod mewn perygl lle mae angen gwneud ymholiadau.
	
Cyfanswm nifer yr ymholiadau lle penderfynwyd y dylid rhoi camau ychwanegol ar waith.	
	

Blwyddyn Bresennol:

Cyfeirnod y metrig	Enw'r metrig	2025-26
CH/020	Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol â phlant a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn gasglu.	477
CH/021	Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a symudodd ymlaen i ymholiadau Adran 47.	395
CH/022	Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a symudodd ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.	149
CH/024	O'r plant hynny a ychwanegwyd at y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn gasglu, y nifer a oedd wedi'u cofrestru o'r blaen dan unrhyw gategori, ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis cynt.	3% (5/149)
AD/020	Cyfanswm nifer yr adroddiadau am oedolyn yr amheuwyd ei fod mewn perygl a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.	917
AD/023	Cyfanswm nifer yr adroddiadau am oedolyn yr amheuir eu bod mewn perygl lle mae angen gwneud ymholiadau Adran 126	23% (212/917)
AD/026	Cyfanswm nifer yr ymholiadau lle penderfynwyd y dylid rhoi camau ychwanegol ar waith.	18

Pa gynnydd wnaethom ni ar flaenoriaethau y llynedd?

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Parhau i ddatblygu'r Gwasanaeth Materion Lles a Thimau Amlddisgyblaethol Clwstwr Meddygon Teulu. Gyda chysylltedd digidol gwell trwy ein Crynodeb Gofal a Rennir, mae aelodau timau'n gallu gweld gwybodaeth berthnasol o bob rhan o faes iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae Bwrdd Prosiect wedi'i greu i ddechrau'r adolygiad o'n cartrefi gofal ac mae swyddog datblygu wedi'i benodi.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Datblygu llety newydd i gefnogi gwasanaethau a staff mewn partneriaeth â byrddau iechyd.
- Datblygu Strategaeth Cartref Gofal i sicrhau digon o gapasiti i bobl hŷn.

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u dewis i ddarparu gwasanaethau ymatebol yng nghanol ein cymuned ac i sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti mewn cartrefi gofal i'r rhai sydd angen lefel uchel o gymorth.

4. Lles

Sicrhau Bod Pobl yn Cael Eu Hamddiffyn a'u Diogelu rhag Niwed
Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i amddiffyn a diogelu unigolion rhag camdriniaeth, esgeulustod, a mathau eraill o niwed.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, gan sicrhau dull amlasiantaethol o amddiffyn plant ac oedolion. Lle bo hynny'n briodol, gellir dod o hyd i ragor o fanylion am drefniadau diogelu yn Adroddiadau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Yn ogystal, mae ein Grŵp Gweithredol Diogelu Lleol yn dod â phartneriaid at ei gilydd ar lefel leol i ganolbwyntio ar ddiogelu ym Mro Morgannwg.

Mae uwch staff ym Mro Morgannwg yn darparu arweinyddiaeth ac yn goruchwylio rhaglenni mewn perthynas â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, gan olygu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau ein bod yn gweithredu gan ddefnyddio ymarfer cyfoes yr ymchwiliwyd yn helaeth iddo. Eleni mae hyn wedi canolbwyntio'n arbennig ar sicrhau ein bod yn gweithredu ar yr argymhellion eang o'r adolygiad Ymarfer Plant 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder'.

Sut rydym yn gwybod

- **Ymgynghoriad ar ôl Camau Llesiant:**

Mae gwaith ymgysylltu treigl yn cael ei wneud gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal ag oedolion, ar ôl cwblhau asesiad lles, Cynllun Gofal a Chymorth neu adolygiad. Bwriad y gweithgaredd hwn yw amddiffyn dinasyddion rhag niwed trwy sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, y gweithredir ar eu barn a bod cymorth yn parhau i fod yn gymesur, i ganolbwyntio ar yr unigolyn ac i ymateb i risg ac angen newidiol.

Roedd lefelau ymgysylltu ag arolygon ar ôl ymgynghoriad lles yn amrywio ar draws meysydd gwasanaeth. Lle cafwyd ymateb gan ddinasyddion, roedd yr adborth yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i brofiad bywyd, gan dynnu sylw at ymarfer cadarnhaol yn seiliedig ar berthynas yn ogystal â meysydd lle gellid cryfhau cyfathrebu, eglurder a phrydlondeb.

Ar y cyfan, mae'r adolygiad yn dangos bod adborth ar ôl ymyrraeth yn gallu gweithredu fel offeryn ataliol effeithiol pan gaiff ei ymgorffori'n glir ac yn cael ei roi ar waith yn gyson. Mae camau gweithredu cynlluniedig i symleiddio trefniadau arolygon, gwella hygyrchedd ac ymgorffori adborth yn fwy cadarn mewn ymarfer arferol yn rhoi cyfle clir i gryfhau cyfranogiad, gwella mewnwelediad a chynyddu gallu'r gwasanaeth i nodi ac ymateb yn gynnar i risgiau o niwed.

- **Ymgynghoriad Gofal Preswyl:**

Ar draws y pedwar cartref preswyl sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor, fel rhan o weithgarwch ymgynghori ymgysylltwyd â chanran uchel o breswylwyr (**43% - 92%)** trwy gyfuniad o arolygon ac arsylwadau strwythuredig, gan sicrhau bod lleisiau'r rhai sydd ag amhariad cyfathrebu neu wybyddol hefyd yn cael eu cynrychioli.
Daeth teimlo'n ddiogel, yn emosiynol sicr a'u bod yn cael eu diogelu i'r amlwg fel thema gyson a blaenllaw. Ar draws y pedwar cartref, **nododd naill ai 100% neu'r mwyafrif clir o breswylwyr eu bod yn teimlo'n saff ac yn ddiogel**, gydag arsylwadau'n cadarnhau amgylcheddau tawel, sefydlog a phresenoldeb staff cysurol. Yn aml, roedd preswylwyr yn disgrifio'r cartrefi fel lleoedd cyfforddus, croesawgar a chartrefol, gan adlewyrchu rôl amddiffynnol gofal preswyl wrth leihau risg, pryder ac ynysigrwydd. Rhannodd un preswylydd, *"Cefais dri chwymp cyn i mi symud yma... Rwy'n teimlo'n llawer mwy diogel nawr,"* tra bod un arall yn disgrifio eu cartref *"fel paradwys"* ac *"y peth gorau nesaf pan nad oeddwn i'n ddiogel gartref mwyach."* Roedd yr ymdeimlad hwn o ddiogelwch wedi'i gysylltu'n agos â gweledded staff, ymatebion prydlon a chynefindra ag anghenion preswylwyr.

Mae ymarfer cryf, sy'n seiliedig ar berthynas ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi lles ac atal niwed. Ar draws y cartrefi, **nododd 100% o breswylwyr yn gyson fod staff yn garedig, yn barchus ac yn hygyrch**, gyda phreswylwyr, perthnasau a gweithwyr proffesiynol yn tynnu sylw dro ar ôl tro at berthnasoedd cynnes ac ymddiriedus. Siaradodd llawer o breswylwyr am y ffaith fod staff yn eu hadnabod yn dda, yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn amyneddgar i arwyddion geiriol a di-eiriau. Mae sylwadau fel *"Mae'r merched yn wych - rydyn ni'n cael lot o hwyl yma"*, *"Maen nhw bob amser yn edrych ar ein hôl ni'n dda"* ac *"Mae staff fel teulu"* yn adlewyrchu'r diogelwch emosiynol a'r sicrwydd a ddarperir trwy ryngweithiadau o ddydd i ddydd. Roedd preswylwyr hefyd yn cael eu cefnogi i gadw **dewis ac ymreolaeth**, gyda rhwng **67% ac 80% yn nodi eu bod yn ymwneud yn llawn â chynllunio gofal** a'r gweddill fel arfer neu weithiau'n ymwneud â hyn, gan ddibynnu ar ddewis neu allu unigol. Mae'r cydbwysedd hwn rhwng amddiffyniad ac annibyniaeth yn cynnal urddas wrth leihau risg.

Cryfhawyd lles ymhellach trwy ofal dibynadwy, ymgysylltu ystyrlon ac amgylcheddau sy'n hyrwyddo cysur ac urddas. Ar draws y pedwar cartref, **cadarnhaodd 100% o breswylwyr fod eu hanghenion a'u dewisiadau deietegol yn cael eu bodloni**, gydag arsylwadau'n nodi bod amseroedd bwyd yn gymdeithasol, yn ddigyffro ac yn gynhwysol. Yn gyffredinol, sgoriwyd gweithgareddau yn **dda neu'n rhagorol gan oddeutu 78% o breswylwyr**, gyda staff yn addasu ymgysylltu ar gyfer y rhai y mae'n well ganddynt ryngweithio tawelach neu un-i-un. Roedd preswylwyr yn gwerthfawrogi cael cynnig dewis, hyd yn oed wrth wrthod gweithgareddau, gan adlewyrchu parch at ymreolaeth. Nododd un o breswylwyr Tŷ Dyfan, *"Dydw i ddim bob amser eisiau cymryd rhan – rwy'n hoffi fy chwileiriau yn lle hynny,"* tra bod un arall yn Southway yn rhannu, *"Mae Dad yn hapusach nawr; mae'r unigrwydd wedi mynd."* Nododd **100% o breswylwyr** fod amgylcheddau ar draws pob cartref yn lân, yn gyfforddus ac wedi'u cynnal yn dda, sy'n cyfrannu at ddiogelwch corfforol a lles emosiynol.

Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau cyfunol yn dangos bod y cartrefi preswyl yn darparu **amgylcheddau amddiffynnol a meithringar** lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu a'u cefnogi. Mae ymarfer perthynol cryf, presenoldeb staff cyson, monitro iechyd rhagweithiol a sylw i unigoliaeth i gyd yn cyfrannu at nodi risgiau ac atal niwed yn

gynnar. Er bod preswylwyr wedi nodi rhai cyfleoedd i wella lles ymhellach, yn enwedig o amgylch gweithgareddau personol, mynediad awyr agored a chymorth parhaus i unigolion tawelach, mae'r dystiolaeth yn rhoi sicrwydd cryf bod lles yn cael ei hyrwyddo'n weithredol a'i ymgorffori mewn ymarfer dyddiol ar draws y pedwar gwasanaeth.

- **Gwybodaeth Allweddol ynglŷn â Goruchwylio:**

- Ers cyflwyno'r polisi goruchwylio'r diweddaraf, rydym wedi gallu olrhain ac adrodd gwybodaeth allweddol am sut mae goruchwyliaeth yn cael ei chyflwyno'n well. Mae hyn yn bwysig oherwydd ein bod yn deall pa mor bwysig yw hi i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu rolau. Eleni mae 3750 o sesiynau goruchwylio wedi cael eu cynnal.

- **Allgymorth ac Ymgysylltu Cymunedol:**

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

- Ymatebodd GGD i 1,029 o ymholiadau dros y flwyddyn, am wybodaeth i gefnogi teuluoedd. Roedd yr ymholiad mwyaf cyffredin yn ymwneud â'r cyllid Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant 3 i 4 oed, a oedd yn cyfrif am 39% o'r ymholiadau. Roedd 41% o'r ymholiadau yn ymwneud â gwybodaeth iechyd, lles a hamdden.

- Eleni, cynhaliodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ddau barti Nadolig i deuluoedd ar draws y Fro. Cafodd y digwyddiad cyntaf ei deilwra'n benodol ar gyfer teuluoedd â phlant 0–3 oed, tra bod yr ail yn croesawu plant o bob oed. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r digwyddiad gan y gymuned, gyda chyfanswm o 715 o unigolion yn mynd i'r ddau ddigwyddiad. Gyda chyllid wedi'i sicrhau gan fenter Mannau Cynnes Llywodraeth Cymru, roeddem yn gallu cymorthdalu'r partïon a darparu byrbrydau a diodydd am ddim i bawb a ddaeth.

  Roedd cyfanswm o 22 o sefydliadau'n cefnogi'r digwyddiadau, gyda dros 60 o aelodau staff yn cyfrannu at y diwrnod. Fe wnaethom gasglu adborth gwerthfawr gan 70 o rieni ac 11 o ddarparwyr partner, gyda chanlyniadau hynod gadarnhaol:
  - Sgôr gyfartalog rhieni: 4.8 o 5
  - Sgôr gyfartalog darparwyr: 4.8 o 5
  - Dywedodd 100% o bobl y bydden nhw'n mynd i ddigwyddiad tebyg eto
  - Dywedodd 100% o ddarparwyr y bydden nhw'n mynd i ddigwyddiad tebyg eto.









Gofynnwyd i rieni 'Beth oeddech chi'n mwynhau fwyaf am y parti?' Cawsom yr ymatebion canlynol:

1. *“Roedd Siôn Corn yn gyfeillgar iawn ac yn cymryd ei amser gyda'r plant. Yn aml mae fy merch yn cael trafferth gyda chymeriadau, ac fe wnaeth gymaint o ymdrech i'w chynnwys hi ynghyd â fy mab. Roedden ni wrth ein bodd gyda'r holl gelf a chrefft, yn arbennig pan oedden ni'n gwneud addurniadau a bwyd ceirw. Pe baen ni wedi gwneud hynny yn unrhyw le arall, byddai wedi costio arian nad oeddwn yn gallu ei fforddio. Roeddwn i hefyd wrth fy modd o weld y ffrwythau iach a'r dŵr i'r plant eleni a hoffwn i weld hynny eto'r flwyddyn nesaf."*
2. *"Roedden ni wrth ein bodd o gwrdd â Siôn Corn. Dw i'n credu mai ef yw'r un gorau i mi ei weld erioed – hyd yn oed fel oedolyn – a dw i mor falch mai ef yw'r un cyntaf i fy mab gwrdd ag ef. Roedd yn anhygoel cael bore mas am ddim gyda chynifer o weithgareddau ac yn cynnwys sesiwn o'r llyfrgelloedd y bydda i'n mynd iddynt yn y*

flwyddyn newydd. Hefyd ces i wybod am grwpiau a sesiynau eraill yn ogystal â rhai dosbarthiadau dysgu oedolion i mi fy hun."

3. *'Roedd y DJ yn ychwanegiad gwych eleni ac yn rhoi mwy o naws parti iddo ac roedd y gweithgareddau i gyd yn anhygoel. Roedd gan bob bwrdd rywbeth gwahanol ac aethon ni â chynifer o bethau adref, nid yn unig celf a chrefft ond brwsys dannedd, llyfrau, canllawiau rhieni a llawer o wybodaeth hefyd. Fe wnaethon ni fwynhau popeth oedd ar gael, yn enwedig cael y byrbrydau eleni a oedd yn syniad gwych ac oherwydd eu bod yn rhad ac am ddim, roedd pobl yn gallu mynd heb boeni am gostau cudd."*

Roedd darparwyr hefyd yn sôn yn gadarnhaol iawn amdano gydag un yn dweud:

'Rydym yn credu bod y digwyddiad yn gyfle gwych i deuluoedd yn y Fro fwynhau gweithgareddau Nadolig heb y gost enfawr. Roedd cynllun yr ystafell yn galluogi llawer o deuluoedd i symud o gwmpas heb deimlo bod y lle'n gyfyng. Yn arbennig roedden ni'n hoffi bod y digwyddiad yn cynnwys ymweliad â Siôn Corn, byrbrydau a diodydd am ddim a chydganu. i bob golwg roedd y teuluoedd yn mwynhau'r digwyddiad yn fawr. Bu ein tîm ni yn mwynhau'n fawr hefyd. Diolch am eich holl waith caled.'

Achrediad Ystyriol o Ofalwyr

Enillodd y Tîm Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol Achrediad Ystyriol o Ofalwyr, gan gydnabod ein hymrwymiad i wella, rhannu a hyrwyddo cymorth i ofalwyr di-dâl ledled Bro Morgannwg.

Ffrindiau Dementia

Daeth y Tîm Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol hefyd yn Ffrindiau Dementia, gan gryfhau ein dealltwriaeth o ddementia a'r camau bach y gallwn eu cymryd i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt. Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaeth Tîm Dewis a gwirfoddolwyr baratoi 100 o fagiau taflenni glas ar gyfer y digwyddiad *Troi'r Barri'n Las* cyntaf yn y Barri, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth a lleihau'r stigma sy'n ymwneud â dementia.

Vale Family Compass

Ym mis Tachwedd 2025 lansiwyd Cwmpawd Teulu y Fro, drws ffrynt sengl newydd i deuluoedd gael mynediad i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y Llinell Gyngor Cymorth Cynnar, y Tîm o amgylch y Teulu, Gwasanaeth Rhianta y Fro, a Thîm Derbyn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae'r dull cydlynol hwn yn sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.



Fe wnaeth y lansiad gyflwyno rhif cyswllt newydd ynghyd â chyfeiriad e-bost, gwefan a brandio newydd, gyda'r GGiD yn chwarae rhan annatod yn y datblygiad. Cafodd y wefan 1.5k o ymweliadau yn ei hwythnos gyntaf a bron 4.5k yn y mis cyntaf. Fe wnaeth hyrwyddiadau trwy dudalen Facebook newydd Cwmpawd Teulu y Fro gael eu gweld dros 4.5l

CWMPAWD TEULU BRO
DOD O HYD I ATEBION GYDA'N GILYDD
VALE FAMILY COMPASS
FINDING SOLUTIONS TOGETHER

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Service

Cynnig Gofal Plant Cymru
Childcare Offer for Wales

index mynegai

WE ARE CARER FRIENDLY

FAMILIES FIRST QUALITY AWARD ACCREDITED

Rydw i'n Ffrind Dementia
Gallwch ymuno gyda mi ar dementiafriends.org.uk

Rhaglen Gweithgareddau Gwyliau'r Haf i Blant a Phobl Ifanc yng Nghaerdydd
Yr haf diwethaf, cyflwynodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ei Raglen Gweithgareddau Gwyliau'r Haf blynyddol sy'n nodi'r gweithgareddau, y digwyddiadau a'r cynlluniau sydd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol. Am y tro cyntaf, cafodd y rhaglen ei chynnal ar wefan Dewis Cymru, gan ei gwneud hi'n haws i deuluoedd chwilio am wybodaeth a chael mynediad iddi mewn un lle.
Gan weithio'n agos gyda thimau mewnol a phartneriaid allanol, gwnaethom sicrhau bod rhestr eang ac amrywiol o weithgareddau wedi'i chynnwys. Trwy hyrwyddo'r rhaglen, cafwyd cynnwys sylweddol yn lefel yr ymgysylltu, gydag ymweliadau Bro Morgannwg ar Dewis yn cynyddu 139% ym mis Gorffennaf ac Awst. Cafodd ein post ar y cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo'r rhaglen eu gweld dros 4.5k o weithiau.

Allgymorth yng Nghanolfan Waith y Barri
Mae Swyddog Allgymorth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn mynychu Canolfan Waith y Barri bob mis, gan gynnig apwyntiadau un-i-un i rieni sydd angen gofal plant er mwyn dechrau neu ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r sesiynau hyn wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan staff a theuluoedd.
Adborth gan y Rheolwr Partneriaeth:

> *"Rydym yn ddiolchgar iawn am y cymorth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, ... Mae'r gymhorthfa reolaidd ar y safle yn helpu Hyfforddwyr Gwaith i gadw'n ymwybodol o'r holl ddatblygiadau diweddaraf ac yn galluogi cwsmeriaid i gael mynediad uniongyrchol i gyngor ar ofal plant a gwybodaeth am gyllid. Mae'r cysylltiadau agos hyn yn darparu cymorth hanfodol wrth helpu cwsmeriaid i symud i mewn i waith."*

Roedd adborth rhieni yn cynnwys:

> *'Roedd K yn ddefnyddiol iawn ac yn fy helpu i wneud fy nghais am gynnig gofal plant er mwyn sicrhau iddo gael ei wneud yn gywir."*


"Des i o hyd i ofal plant gan ddefnyddio'r cynllun Dechrau'n Deg y gwnaethoch chi fy rhoi mewn cysylltiad ag ef... nawr rydw i'n ôl yn y gwaith."

Y Mynegai i Blant a Phobl Ifanc sydd Anableddau ac Anghenion Ychwanegol
Mae Mynegai teuluoedd Plant ag Anableddau neu Anghenion Ychwanegol yn parhau i dyfu, gyda 231 o gofrestriadau newydd yn y flwyddyn ddiwethaf. Erbyn hyn mae 921 o blant a phobl ifanc ar y gofrestr, ac yn derbyn gwybodaeth reolaidd. Mae'r Swyddog Mynegai wedi sefydlu cyfarfodydd amlasiantaethol chwarterol gydag iechyd, partneriaid trydydd sector a'r Tîm Cymorth Cynnar, gan helpu gweithwyr proffesiynol i gael gwybod am wasanaethau newydd a gwella ymwybyddiaeth o'r Mynegai.


Mae llwybr atgyfeirio newydd hefyd wedi'i ddatblygu gyda Dechrau'n Deg, lle mae Swyddogion Cyswllt Gofal Plant yn cyflwyno'r Mynegai i rieni plant dwy oed a allai elwa o gymorth ychwanegol. Derbyniwyd 26 o atgyfeiriadau yn y chwarter cyntaf.
Mae'r Swyddog Mynegai wedi creu Padlet, Canllaw Gwasanaethau Cynhwysol y Mynegai wedi'i ddatblygu gyda phartneriaid a'i rannu'n eang i dynnu sylw at gymorth lleol i blant ag anghenion ychwanegol.
Roedd adborth rhieni'n cynnwys:

"Gwybodaeth ardderchog! Mae'n wych gweld beth sydd ar gael. Llwyddiannus gan gael gwybod am y grant gennych chi."

"Byddai wedi bod yn dda gwybod amdanoch chi yn gynt – gwasanaeth gwych a mor ddefnyddiol."



Cyfeiriadur lles ar-lein Dewis Cymru



- Mae adnoddau ar gyfeiriadur lles ar-lein Dewis Cymru dewis.cymru ar gyfer Bro Morgannwg yn cynnwys gwasanaethau i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain megis garddwyr, glanhawyr a darparwyr gofal cartref, yn ogystal â gweithgareddau cymdeithasol a chymorth i bobl ag anawsterau dysgu.





- Eleni gwnaed gwaith i grwpio gwasanaethau mewn rhestrau targedig ar gyfer grwpiau allweddol, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, gwasanaethau llyfrgell, gweithgareddau hamdden a phobl hŷn. Mae hyn yn galluogi gweithwyr proffesiynol i gael mynediad cyflym i wybodaeth gyfredol ar gyfer cyfeirio, wrth ei gwneud hi'n haws hefyd i'r cyhoedd ddod o hyd i wasanaethau trwy ddolenni wedi'u hymgorffori a chodau QR

- Ychwanegwyd 620 o adnoddau newydd at Dewis Cymru ar gyfer Bro Morgannwg eleni, gyda lefelau arbennig o uchel o weithgarwch yn ystod misoedd yr haf, gan adlewyrchu menter ar y cyd â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gyhoeddi rhaglen gweithgareddau haf y Cyngor i deuluoedd a phlant ar Dewis Cymru. Roedd defnyddio Dewis Cymru fel y platfform canolog yn gwneud yr wybodaeth yn haws i deuluoedd ei gyrchu, chwilio amdani a dychwelyd iddi trwy gydol gwyliau'r ysgol.


- Erbyn hyn mae dros 1,258 o adnoddau wedi'u cyhoeddi ym Mro Morgannwg.

- Rydym wedi gweld mwy o ymgysylltu gan breswylwyr a darparwyr gwasanaethau, gyda thua 535,000 o ymweliadau â thudalennau manylion adnoddau yn ystod y flwyddyn (cynnydd o 65% ar 2024–25) a defnyddwyr cofrestredig yn cynyddu 12%, gan adlewyrchu twf parhaus yn nifer y sefydliadau sy'n defnyddio Dewis Cymru i restru a chynnal gwasanaethau.

Atal / Cymorth Cynnar

Cysylltiadau a dderbyniwyd gan Linell Gymorth Cynnar Cwmpawd Teulu y Fro	Cysylltiadau a dderbyniwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cwmpawd Teulu y Fro
	
Asesiadau newydd wedi'u cwblhau gan y Llinell Gyngor Cymorth Cynnar o fewn amserlenni statudol	Rhestr aros Tîm o Amgylch y Teulu (TAT)
	

Rhestr aros Gwasanaeth Rhianta'r Fro



Data – Atal / Cymorth Cynnar

Cyfeirnod y metrig	Enw'r metrig	2024-25
C01.1	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan Linell Gyngor Cymorth Cynnar Cwmpawd Teulu y Fro yn ystod y flwyddyn	2444
C01.22	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cwmpawd y Fro yn ystod y flwyddyn	1029
C04.1	Canran yr asesiadau newydd a gwblhawyd gan Linell Gyngor Cymorth Cynnar Cwmpawd Teulu y Fro o fewn amserlenni statudol (o fewn 42 diwrnod i atgyfeirio)	88%
C04.11	Rhestr aros Tîm o Amgylch y Teulu (TAT)	11
C04.12	Rhestr aros Gwasanaeth Rhianta'r Fro	26

Pa gynnydd wnaethom ni ar flaenoriaethau y llynedd?

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- Cryfhau ein Fframwaith Diogelu ymhellach trwy gwblhau dogfen trothwy amlasiantaethol i gefnogi ymarfer cyson. Mae ein pecyn cymorth esgeulustod yn weithredol ac wedi'i ymgorffori.
- Mae ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau yn parhau i ddatblygu mewn Gwasanaethau Oedolion trwy sesiynau e-ddysgu a datblygu ymarfer.
- Rydym wedi dechrau dull gweithredu ailalluogi'n gyntaf gan ddefnyddio cyllid Llwybrau Gofal gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir i hyn alluogi mwy o breswylwyr i elwa o wasanaeth sy'n eu helpu i adfer a chynnal eu hannibyniaeth.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Ymgorffori fframwaith strategol cynhwysfawr ar gyfer camfanteisio

- Gweithredu'r canllawiau Adran 5 newydd ar gyfer pryderon am y rhai mewn rolau ymddiriedaeth.


Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u dewis i helpu i amddiffyn pobl ym Mro Morgannwg rhag pobl a allai fanteisio arnynt ac i sicrhau ein bod yn dilyn y gweithdrefnau newydd sy'n ymwneud â honiadau am ymarferwyr a phobl mewn rolau ymddiriedaeth.

Adran gwybodaeth ategol

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

- Yn ystod 2025/26, sefydlwyd y Ffrwd Waith Gwrth-Hiliol, gan ddod â chynrychiolwyr o Dîm Rheoli a Diogelu Adnoddau Gwasanaethau Cymdeithasol, Adnoddau Dynol, Cyfathrebu, Cydraddoldeb a Chylch Bywyd at ei gilydd. Mae'r grŵp hwn yn arwain cydlynu a chyflawni'r argymhellion ADSSC a ddatblygwyd fel rhan o'u hadroddiadau ynghylch Cyfieithu, Cael Gwared ar Hiliaeth, a Recriwtio a Chadw. Mae'r ffrwd waith yn cael ei monitro trwy'r Bwrdd Ail-lunio Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Mae rôl Cennad Diwylliannol wedi'i sefydlu ac mae deiliad y rôl yn mynychu'r Rhwydwaith Cenhadon Diwylliannol. Mae'r rhwydwaith hwn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cefnogi staff a hyrwyddo ymarfer cynhwysol.
- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol ar gyfer rheolwyr recriwtio wedi'i gynnal. Mae rheolwyr ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cwblhau hwn.
- Mae hwn wedi'i ategu gan raglen o fodiwlau e-ddysgu Gwrth-Hiliaeth, a ddatblygwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Hyd yn hyn mae 160 o staff wedi dechrau neu gwblhau'r hyfforddiant hwn. Mae wedi cael ei hyrwyddo'n eang ar draws y Cyngor.
- Mae'r Polisi Cyfieithu a Dehongli wedi'i gynhyrchu ac mae cynlluniau ar waith i gynhyrchu canllaw ymarferol gweledol i staff.
- Mae Adnoddau Dynol yn arwain y gwaith o ddatblygu a diweddaru eu polisïau allweddol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r argymhellion ar gyfer adroddiadau ADSSC yn gywir.

Comisiynu:



Fframwaith comisiynu gofal a chymorth cenedlaethol: cod ymarfer

Mae'r cod ymarfer yn nodi gweledigaeth unedig ar gyfer egwyddorion a safonau cyson, moesegol ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau y maes comisiynu ledled Cymru.

Mae'r Cod yn sefydlu'r egwyddorion a'r safonau craidd hyn gyda'r nodau canlynol:

- lleihau cymhlethdod mewn systemau comisiynu
- hwyluso cysondeb cenedlaethol ac arferion comisiynu o ansawdd
- ail-gydbwyso comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau, gwerth a gwaith teg.

Mae Tîm Comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Tîm Comisiynu Cenedlaethol i weithredu'r cod a rhannu dysgu â'r Tîm Gweithredu Cenedlaethol a rhwydwaith comisiynu Cymru Gyfan.

Er mwyn cefnogi hyn, mae swyddogion wedi gweithredu, gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Cenedlaethol, offeryn Hunanasesu lleol a sefydlu grwpiau adolygu rheolaidd i ddiweddaru ein cynnydd yn y maes hwn.


Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys datblygu egwyddorion Eich Dewis a pholisi diwygiedig yn y maes hwn, sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gwerthoedd, dewis a grymuso ac sydd wedi'i gyd-gynhyrchu â darparwyr a chomisiynwyr a gydag adborth gan bobl sy'n derbyn gwasanaethau. (Gweler diweddariad Erin am ymgynghori)

Mae ein holl weithgarwch comisiynu mewn Gwasanaethau Cymdeithasol bellach yn cyd-fynd â'r fframwaith, ac mae cyfeirio at y pecyn cymorth yn bwysig i sicrhau ein bod yn parhau i wella'r ffordd rydym yn comisiynu ac yn gweithio mewn partneriaeth â'n darparwyr i gydgynhyrchu gwasanaethau.

Mae datblygiad Gwasanaethau Dydd Gorllewin y Fro yn enghraifft o wasanaeth a gomisiynwyd yn ddiweddar a wnaeth ymgorffori elfennau o'r fframwaith, yn ogystal ag ymgynghori â phobl sy'n derbyn gwasanaeth, cydgynhyrchu canlyniadau, cynnwys mesurau gwerth cymdeithasol ac ymgysylltu â'r farchnad. Dyma oedd ein contract cyntaf i ni ei gyhoeddi sydd wedi cynnwys Themâu, Allbynnau a Mesurau sy'n ein galluogi ni fel Awdurdod Lleol i fanteisio ar Les Cymunedol ychwanegol yn ogystal â'r canlyniadau o'r gwasanaeth o fewn ein manyleb.

Rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr mewn partneriaeth i ymgymryd â gwersi a ddysgwyd o'n comisiynu, beth oedd yn gweithio'n dda a sut gallwn ni wella a chryfhau ein prosesau.

Mae'r gwasanaethau rydyn ni'n eu comisiynu yn ffurfio tua ¾ o gyllideb gyfan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae ein darparwyr sector annibynnol yn bartneriaid gwerthfawr ac i lawer o'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu, mae eu prif ofal a chymorth yn cael eu darparu ganddyn nhw. Trwy Eich Dewis a'r dull 'â gwerthoedd yn ei lywio' a rennir, rydym wedi gweld datblygiadau gwasanaeth arloesol ar draws y sector. Mae un darparwr o'r fath, Innovate Trust, wedi bod yn adolygu effaith yr atebion digidol y maent wedi'u treialu sy'n gallu dangos tystiolaeth o well annibyniaeth, hyder a diogelwch. Er enghraifft, mae sbectol deallusrwydd artiffisial wedi cael eu defnyddio i wella hyder ac annibyniaeth yn y gymuned ar gyfer unigolion ag amhariad ar y golwg. Mae datrysiadau digidol hefyd wedi helpu gyda hyfforddiant teithio, gorbryder a diogelwch yn y cartref.



Lluniau trwy garedigrwydd Innovate Trust

Taliadau Uniongyrchol

Mae Bro Morgannwg wedi diweddaru'r Polisi Taliadau Uniongyrchol yn dilyn adborth gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r polisi newydd a gwell hwn wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan, ochr yn ochr â'n Hyb Taliadau Uniongyrchol newydd sbon.

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/Direct-Payments/Direct-Payments.aspx

Bydd yr Hyb yn gweithredu fel y pwynt canolog ar gyfer gwybodaeth Taliadau Uniongyrchol ar gyfer ymarferwyr a'r cyhoedd, gan ddod â chanllawiau clir, Cwestiynau Cyffredin a gwybodaeth ategol ynghyd mewn un lle hygyrch.

Rydym yn gobeithio y bydd yr hyb polisi a gwybodaeth newydd hwn yn gwella ymarfer a'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol fel opsiwn safonol ar gyfer gofal a chymorth, yn hytrach na chael ei fframio fel rhywbeth eithriadol neu sydd ond yn cael ei archwilio yn ddiweddarach.

Mae rôl a gwerth Cynorthwywyr Personol yn cael eu cydnabod yn glir ac yn cael eu hyrwyddo'n weithredol fel rhan hanfodol o alluogi cymorth hyblyg wedi'i bersonoli. Mae hyn wedi'i wella gyda chynnydd mewn ffioedd sy'n cefnogi hyblygrwydd y Cyflog Byw Gwirioneddol wrth ddefnyddio oriau trwy greu graddfa gyflog gyson ar draws dyddiau'r wythnos a phenwythnosau.

Mae'r polisi wedi'i ddiweddaru yn adlewyrchu deddfwriaeth ac ymarfer da cyfredol ac yn cryfhau trefniadau diogelu ac atebolrwydd. Mae wedi cael ei lunio trwy gydgynhyrchu â phobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol. Bydd yr Hyb yn ceisio ailgadarnhau Taliadau Uniongyrchol fel opsiwn sy'n cefnogi dewis, hyblygrwydd ac annibyniaeth.

Partneriaeth Gymunedol y Fro

Eleni rydym wedi ymgysylltu â'n partneriaid cymunedol trydydd sector a gwerth cymdeithasol i archwilio sut rydym yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'n gilydd wrth gefnogi ein dinasyddion mwyaf agored i niwed ledled y rhanbarth.

Cynhaliwyd digwyddiad ym mis Mawrth 2026 i 'adnewyddu' perthnasoedd, ymgysylltu â darparwyr newydd ac amlinellu ein hymrwymiad fel awdurdod lleol i weithio mewn partneriaeth.

Daeth y 'Refreshers' Fair' ag ystod eang o bartneriaid trydydd sector a sefydliadau cymunedol o bob rhan o'r Fro ynghyd. Daeth nifer uchel o gyfranogwyr i'r

digwyddiad, gyda sawl darparwr yn cynnal stondinau gwybodaeth i dynnu sylw at eu gwasanaethau a'u mentrau.

Roedd y Refreshers' Fair yn gyfle sylweddol i adfywio'r Fforwm Darparwyr Adran 16 yn unol â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), gan sicrhau bod ei gyfeiriad yn y dyfodol yn parhau i fod wedi'i wreiddio'n gadarn yn y realiti gweithredol a'r pwysau a brofir gan sefydliadau sy'n cael eu harwain gan werthoedd cymdeithasol yn y Fro.

Rhoddwyd cyfle i ddarparwyr gynnig myfyrdodau gonest ar brosesau comisiynu cyfredol a nodi heriau allweddol, gan gynnwys rhwystrau trafnidiaeth, cynaliadwyedd ariannu a'r angen am gysylltedd sector-gyfan cryfach. Rhoddwyd cyfle i ddarparwyr hefyd gyfrannu blaenoriaethau clir ar gyfer gweithdai datblygu'r dyfodol, megis datblygu partneriaethau, ymwybyddiaeth o golled synhwyraidd, a chanllawiau ar gyfer ceisiadau am gyllid y Cyngor.

Roedd y digwyddiad yn dangos yn glir yr angen i adnewyddu strwythur a swyddogaeth Fforwm Darparwyr Adran 16, gyda'r bleidlais i fabwysiadu hunaniaeth newydd ar gyfer y fforwm ei hun yn ganlyniad canolog, gyda'r fforwm yn cael ei adnabod o hyn ymlaen fel "Partneriaeth Gymunedol y Fro: Creu Dyfodol Disgleiriach Gyda'n Gilydd". Mae'r ailfrandio hwn yn cynrychioli'r cam cyntaf i ail-lunio Fforwm Darparwyr Adran 16 ac mae'n ailddatgan ein hymrwymiad ar y cyd i feithrin tirwedd gwerth cymdeithasol fwy cysylltiedig, gwydn a chydweithredol ym Mro Morgannwg.





Arolygiadau ac adolygiadau

- Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Fro yn destun Gwerthusiad Perfformiad yn 2023. Roedd yr adroddiad yn gadarnhaol a datblygwyd cynllun gweithredu i ymateb i'r meysydd gwella a nodwyd. Cafodd pob un o'r camau gweithredu hyn eu cwblhau.
- Arolygwyd cartrefi gofal mewnol y Cyngor yn ystod y flwyddyn:
    - Derbyniodd Tŷ Dyfan sgôr categori 'da' ym mhob categori ym mis Mehefin 2025

        - Derbyniodd Cartref Porthceri sgôr categori 'da' ym mhob categori ym mis Gorffennaf 2025
        - Derbyniodd Southway sgôr categori 'da' ym mhob categori ym mis Chwefror 2026
        - Derbyniodd Tŷ Dewi sgôr categori 'da' ym mhob categori ym mis Mehefin 2025
    - Derbyniodd ein gwasanaeth ailalluogi, Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro, 2 sgôr categori 'da' ac 1 'ardderchog' ym mis Awst 2025
    - Cafodd y gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol a'r gwasanaeth maethu eu harolygu hefyd. Nid oes sgoriau ar gyfer y math hwn o arolygiad, ond tynnodd y ddau sylw at sawl maes ymarfer cadarnhaol yn ogystal â meysydd ar gyfer datblygu'r gwasanaethau

Canmoliaeth, cwynion a sylwadau

- **Canmoliaeth**

Mae canmoliaeth yn chwarae rhan hanfodol o ran deall yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda a'n galluogi i rannu'r profiad hwn ar draws ehangder ein gwasanaethau. Mae hefyd yn fodd i ni ddathlu a chanmol ymdrechion ac ymroddiad ein staff.

Yn ystod 2025-26 derbyniodd y Gwasanaethau Cymdeithasol gyfanswm o **245** o ganmoliaethau o'i gymharu â **184** a dderbyniwyd yn 2024-25. Roedd y canmoliaethau'n ymwneud ag amrywiaeth o wasanaethau a chymorth a dderbyniwyd gan ddinasyddion. Byddai'r canmoliaethau yn aml yn enwi staff penodol lle roeddent yn teimlo bod yr unigolyn wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylid ganddo.

Bydd deall profiad defnyddiwr y gwasanaeth yn well o ran yr hyn y maent yn ei werthfawrogi a'r hyn sydd bwysicaf iddynt, nid yn unig yn ein galluogi i greu darlun gwell o'r ffordd y mae ein gwasanaethau'n perfformio, ond bydd yn helpu i atgyfnerthu ymdeimlad o falchder yn ein gwaith.

Amlinellir isod ddadansoddiad o'r holl ganmoliaethau yn ôl Adran.

Gwasanaeth	Nifer y canmoliaethau
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	109
Gwasanaethau Oedolion	84
Rheoli Adnoddau a Diogelu	52
Nifer y Canmoliaethau	245

Isod ceir cipolwg ar rai o'r canmoliaethau a gawsom dros y flwyddyn ddiwethaf.

GPPhI - Cymorth i Deuluoedd 2
Roeddwn i eisiau dweud diolch am eich holl waith caled a'ch ymrwymiad gyda phlant a'u teuluoedd. Roeddwn i'n gallu gweld pa mor ymroddedig ydych chi wedi bod, er ei fod yn achos sy'n gymhleth ac wedi parhau i ddatblygu. Fe wnaethoch chi sicrhau bod holl safbwyntiau,

dymuniadau a theimladau'r plant wedi cael eu casglu, bod gwaith uniongyrchol wedi'i gwblhau pan oedd angen a bod cynllun diogelwch yn ei le. Cwblhawyd adroddiad y gynhadledd Amddiffyn Plant ar amser a'i rannu â'r teulu. Rwy'n gwybod ei fod wedi cymryd llawer o'ch amser ac nad dyma'ch unig achos, ond rwy'n gallu gweld eich ymroddiad a'ch ymarfer da

Gwasanaethau Oedolion - Gwasanaethau Anableddau Dysgu

Fel rydych yn ymwybodol, nid yw profiadau blaenorol X wedi bod yn dda iawn. Mae'r gwrthod cyson mae wedi'i fewnoli wedi amharu ar ei hunan-barch yn sylweddol. Mae ei weld o'r diwedd yn gwenu ac eisiau aros yn hirach yn drawsnewidiad enfawr. Dylech fod yn falch o wneud gwahaniaeth mor anhygoel yn ei fywyd. Y cyfan a gymerodd oedd y bobl iawn gyda'r ffordd gywir i'w weld fel person nid problem

Rheoli Adnoddau a Diogelu - Cyllid a Chomisiynu
Rwy'n ysgrifennu i fynegi fy niolchgarwch diffuant ac i ganmol yn ffurfiol y tîm o ofalwyr sy'n cefnogi fy mam gartref ar hyn o bryd. Dros yr wythnosau diwethaf, mae'r gofal a ddarperir wedi bod o safon gyson uchel. Gan fod fy mam yn rhwym i'r gwely ac mae ganddi anghenion sylweddol, rwyf wedi cael fy sicrhau gan broffesiynoldeb, caredigrwydd ac urddas y gofalwyr wrth wneud yn siŵr ei bod hi bob amser yn lân ac yn gyfforddus a'i bod hi'n cael gofal da. Maen nhw'n glod i Ofal Cartref Caremark. Diolch unwaith eto am y tawelwch meddwl rydych chi wedi'i roi i'n teulu.

- **Cysylltiadau**

Yn ystod **2025–2026,** derbyniwyd cyfanswm o **67 o gysylltiadau** gan y tîm cwynion sy'n ymwneud â phob un o dair adran y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd nifer o'r cysylltiadau hyn yn **sgyrsiau anffurfiol neu'n ymholiadau cychwynnol,** lle nad oedd unigolion wedi cysylltu â'r gwasanaeth o'r blaen i ofyn am gyngor neu gymorth, neu geisio datrys problem. Mewn llawer o achosion, roedd cysylltiadau'n ymwneud â materion nad oeddent yn berthnasol i'r broses gwyno statudol ac felly cawson nhw eu **cyfeirio'n briodol** i'r gwasanaeth neu'r sefydliad perthnasol, megis **ceisiadau gwasanaeth cychwynnol, Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun, y Swyddog Diogelu Data, gwasanaethau lechyd, neu asiantaethau partner eraill.**

- **Cwynion**

Trwy ein proses ymdrin â chwynion rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gynnal dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran sut rydym yn delio â chwynion. Trwy ddefnyddio'r dull hwn, mae'n ein galluogi i ddeall y materion yn llawn o safbwynt y dinesydd ac yn ein rhoi mewn sefyllfa gryfach i allu dod o hyd i ddatrysiad dymunol, dysgu gwersi ac ystyried meysydd i'w gwella.

Mae'r Swyddog Cwynion yn mynd ati'n rhagweithiol i atal a chyfryngu materion cyn bod ganddynt y potensial i arwain at gŵyn. Weithiau, gall dinasyddion gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol heb wybod a yw eu pryder yn cael ei ystyried yn gŵyn ffurfiol ai peidio. Mae cymorth a chamau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith yn y cam cynnar hwn ac o ganlyniad, nid ydynt bob amser yn symud ymlaen i droi'n gŵyn. Mae'r rhain yn cael eu eu cofnodi fel cyswllt.

Ar 31 Mawrth 2026, derbyniwyd cyfanswm o **129** o gwynion (o'i gymharu â 117 ar gyfer 24/25), y rhoddwyd y gorau i **42** ohonynt yn ystod y flwyddyn (naill ai trwy beidio â chysylltu pellach neu oherwydd y penderfynwyd nad oedd modd ystyried y gŵyn o fewn y broses gwyno).

o'r **87** (o'i gymharu â 68 ar gyfer 24/25) o gwynion oedd yn weddill, cafodd **27** (31%) eu datrys o fewn yr amserlenni dynodedig, cafodd **49** (56.3%) eu datrys y tu allan i amserlenni, ac roedd **11** (12.6%) yn aros ar agor ar ddiwedd y flwyddyn ac yn cael eu cario ymlaen i **2026–27**.

Bu cynnydd yn nifer y cwynion o'i gymharu â'r llynedd sy'n siomedig ond dylid gweld hyn yng nghyd-destun cynnydd yn nifer y bobl sy'n gofyn am wasanaethau ac yn cael eu cefnogi.

Mae'n ofynnol i'r tîm cwynion a chanmoliaethau weithio o fewn amserlenni statudol ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion. Mae'r amserlenni dynodedig fel isod:

- Ymateb i gwynion Cam 1, 10 diwrnod gwaith a 5 diwrnod gwaith arall i gadarnhau canlyniad y drafodaeth.
- Cwynion Cam 2, 25 diwrnod gwaith.

Mae'r Tîm Cwynion yn cynnal cyfarfodydd wythnosol gyda Rheolwr Gweithredol a Rheolwyr Tîm i gefnogi goruchwyliaeth ac ymateb amserol ac effeithiol i gwynion.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad llawn o'r holl Gysylltiadau a Chwynion a dderbyniwyd yn 2025-26.

Is-adran Gwasanaeth	Cysylltiadau	Cwynion Cam 1	Cwynion Cam 2	Ombwdsmon	Ymatebwyd o fewn yr amserlenni	Dirwyn y cwynion i ben	Cyfanswm Cwynion a Chysylltiadau a Dderbyniwyd
Gwasanaethau Oedolion	17	38	4	6	36	19	59
Rheoli Adnoddau a Diogelu	29	7	0	1	6	2	36
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	21	75	5	8	21	31	101
Cyfanswm	67	120	9	15	63	52	196

1 - Sylwer bod cwynion yr Ombwdsmon yn cael eu cofnodi ar wahân i weddill y data cwynion.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o natur cwynion cam 1 a chysylltiadau fesul cyfadran.

Natur y gŵyn yn ôl Cyfadran	Gwasanaethau Oedolion	Rheoli Adnoddau a Diogelu	Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	Cyfanswm
Ansawdd y cyfathrebu	5	3	27	35
Herio Penderfyniadau	5	2	22	29
Staff anghwrtais	6	2	18	26

Natur y gŵyn yn ôl Cyfadran	Gwasanaethau Oedolion	Rheoli Adnoddau a Diogelu	Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	Cyfanswm
Yn anfodlon â'r amserlenni	3	0	2	5
Hygyrchedd gwasanaethau	6	2	1	9
Safon Gyffredinol y Gwasanaeth	26	15	35	76
Gwybodaeth Anghywir wedi ei rhoi	0	1	2	3
Honiadau difrifol gan gynnwys: Ymosodiad, Lladrad, Esgeulustod, Cam-drin a Diogelu	2	1	6	9
Anhapus gyda chostau gwasanaethau/cymorth ariannol	7	5	5	17

**Gall cwynion ymwneud â mwy nag un maes pryder; felly, mae cyfanswm nifer y materion a gofnodwyd yn fwy na chyfanswm nifer y cwynion a'r cysylltiadau a dderbyniwyd.*

Gwersi a Ddysgwyd

Yn ystod 2025-2026, mae crynodeb o'r gwersi allweddol a ddysgwyd wedi'u nodi isod:

Cysylltiadau

Yn ystod 2025–2026, tynnodd dadansoddiad o gysylltiadau a dderbyniwyd ar draws gwasanaethau sylw at faterion ailadroddus sy'n ymwneud â chyfathrebu, eglurder prosesau a gosod disgwyliadau.

Mae'r themâu allweddol a nodwyd o gysylltiadau yn ystod 2025–2026 yn cynnwys:

- Amseroldeb ac ansawdd cyfathrebu, yn enwedig yr angen am ddiweddariadau cliriach a mwy rheolaidd i ddinasyddion.
- Diffyg eglurder ynghylch prosesau a throthwyon, yn enwedig lle na allai materion symud ymlaen trwy'r broses gwyno ffurfiol oherwydd achosion llys, neu ystyriaethau diogelu neu gydsyniad.
- Gosod disgwyliadau ar y cyswllt cyntaf, gan fod arwyddion aneglur yn aml yn arwain at gyswllt ailadroddus neu uwchgyfeirio.

Mae'r themâu hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd cyfathrebu clir ac amserol ac esboniad cynnar o brosesau statudol i wella profiad cwsmeriaid a lleihau uwchgyfeirio diangen.

Cwynion Cam 1

Mae'r themâu allweddol a nodwyd o gwynion Cam 1 yn cynnwys:

- Ansawdd a phrydlondeb cyfathrebu, yn enwedig yr angen am ddiweddariadau cliriach, esboniadau o benderfyniadau a gwell cysondeb cyswllt.
- Roedd angen esboniadau cliriach o drothwyon a rhesymeg ar benderfyniadau, yn enwedig pan oedd penderfyniadau wedi'u gwneud o fewn fframweithiau statudol neu bolisi ac achwynwyr.
- Oedi a chydlynu gyda gwasanaethau, yn aml yn gysylltiedig â phwysau capasiti, amserlenni dyrannu a phontio rhwng timau.
- Gosod disgwyliadau, gan fod nifer o gwynion wedi codi lle nad oedd dinasyddion yn deall prosesau, amserlenni neu gwmpas y weithdrefn gwyno'n llawn.

Mae'r themâu hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd cyfathrebu clir, esboniad cynnar o'r rheswm dros benderfyniadau a safonau gwasanaeth cyson i leihau cynnydd a gwella profiad y rhai sy'n cwyno.

Cwynion Cam 2

Mae dysgu o gwynion Cam 2 eleni yn tynnu sylw at bwysigrwydd dealltwriaeth gliriach ar draws gwasanaethau ynghylch **pa faterion sy'n briodol i'w symud ymlaen i Gam 2,** gan helpu i sicrhau cysondeb a rheoli disgwyliadau.

Nododd Dysgu o gwynion Cam 2 eleni bwysigrwydd cefnogi staff lle mae ymchwiliadau'n cynnwys ymarferwyr lluosog a chymhlethdod ychwanegol, gan gynnwys disgwyliadau iaith. Tynnodd yr adborth sylw at y ffaith bod pryderon ynghylch defnydd y Gymraeg yn effeithio ar hyder staff ac yn creu rhwystr canfyddedig i gyfathrebu. Er bod craffu annibynnol yn parhau i fod yn hanfodol, mae'r dysgu hwn yn pwysleisio'r angen am **gymorth cynnar a phriodol i staff sy'n ymwneud ag ymchwiliadau Cam 2 cymhleth.**

Mae hyn yn cynnwys ymgysylltiad amserol gan y Tîm Cwynion, megis sesiynau briffio hwyluso neu drafodaethau myfyriol, i gefnogi lles staff ac atgyfnerthu dysgu

Fel rhan o'n hymrwymiad i Sicrhau Ansawdd, rydym wedi datblygu Traciwr Gweithredu Argymhelliad Ymchwiliad Cam 2. Defnyddir yr offeryn hwn i fonitro a dilyn argymhellion a wneir gan ymchwilwyr allanol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwyr y gwasanaeth perthnasol i adolygu'r argymhellion hyn, cytuno ar gynlluniau gweithredu, a gosod dyddiadau cwblhau clir. Mae'r broses hon yn sicrhau bod yr holl argymhellion sy'n anelu at wella ein gwasanaethau nid yn unig yn cael eu gweithredu ond hefyd eu olrhain yn iawn. Mae'n atgyfnerthu ein hymrwymiad i welliant ac atebolrwydd parhaus.

Argymhellion Cam 2

Gwnaed nifer bach o argymhellion trwy ymchwiliadau Cam 2. Bydd y rhain yn cael eu hystyried a, lle bo hynny'n briodol, yn cael eu defnyddio i lywio gwelliannau i ymarfer a chryfhau'r broses ymdrin â chwynion gyffredinol.

Gwasanaethau Oedolion

Tynnodd dysgu Cam 2 sylw at yr angen i gryfhau goruchwyliaeth, cofnodi a goruchwylio, gan gynnwys dogfennaeth glir o wneud penderfyniadau a chyfranogiad proffesiynol. Roedd argymhellion hefyd yn atgyfnerthu pwysigrwydd esboniadau clir ynghylch costau gofal a gwybodaeth i berthnasau i wella tryloywder a dealltwriaeth.

Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc (GPPhI)

Roedd argymhellion Cam 2 yn pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu empathig sy'n ystyriol o drawma, cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r llys, a rhoi ffocws parhaus ar ddarpariaeth yn yr iaith a ffefrir, yn unol â chanfyddiadau Comisiynydd y Gymraeg. Roedd dysgu hefyd yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod staff wedi'u paratoi'n dda a'u cefnogi yn ystod ymchwiliadau cymhleth Cam 2.

Dysgu Traws-Wasanaeth

Ar draws gwasanaethau, roedd dysgu'n atgyfnerthu pwysigrwydd esbonio llwybrau uwchgyfeirio'n glir, gan arwain at ddiweddaru templedi ymateb Cam 1. Roedd argymhellion hefyd yn tynnu sylw at werth cymorth ac arweiniad staff cynnar yn ystod ymchwiliadau Cam 2 i hyrwyddo dysgu, hyder a lles.

Mae gwelliannau wrth reoli cwynion, cysylltiadau a chanmoliaeth eleni wedi arwain at brosesau datrys cynnar mwy effeithiol a mwy o sicrwydd. Er bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i wynebu galw cynyddol, cymhlethdod a phwysau costau, mae dysgu o bryderon a godwyd wedi cefnogi gwelliannau mewn cyfathrebu ac ymarfer. Fodd bynnag, yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig, bydd angen newid gwasanaeth pellach i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

Casgliad Adroddiad y Cyfarwyddwr

Mae sawl gwelliant allweddol wedi'u gwneud i'r gwasanaeth eleni gan arwain at well ymateboldeb a lefelau uwch o sicrwydd. Mae cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud o ran trawsnewid gwasanaethau, yn enwedig mewn ymateb i ddatblygu llety a mynediad i wasanaethau plant. Yn ogystal, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cymorth i fwy o bobl nag erioed o'r blaen. Mae hyn yng nghyd-destun cynnydd parhaus yn y galw a'r costau. O ganlyniad i adnoddau ariannol cyfyngedig, a'r sefyllfa ariannu sydd heb ei datrys yn y DU ar gyfer gofal cymdeithasol, nid yw'r twf hwn yn gynaliadwy a bydd angen newid sylweddol i'r gwasanaeth yn y dyfodol.